# HYSBYSIAD CYHOEDDUS

## CYNGOR SIR CEREDIGION
## DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847
## (ADRAN 21)
## Carnifal Llanbedr Pont Steffan 2025

---

**HYSBYSIR** drwy hyn fod Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud y Gorchymyn a ganlyn o dan Adran 21 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 er mwyn Atal Rhwystrau a.y.b.

**YN GYMAINT AG** ar ddydd Sadwrn 9fed Awst 2025, rhwng 12:30 a 13:20 oherwydd bod Carnifal Llanbedr Pont Steffan uchod yn cael ei gynnal, y bydd rhan o'r ffyrdd a elwir Teras Peterwell (o fynedfa Ysgol Bro Pedr), Heol Hafan Deg, A475 Teras y Deml, A475 Stryd Fawr, A482 Sgwâr Harfford, Ffordd y Porthmyn, Stryd Newydd, A482 Heol y Bont, A482 Stryd y Coleg, A482 Ffordd y Gogledd (i fynedfa Clwb Rygbi Llambed) Llanbedr Pont Steffan yn sir Ceredigion, yn llawn ac yn agored i gael eu rhwystro. Mae Cyngor Sir Ceredigion, yn unol â'r pwerau a roddwyd gan Adran 21 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 DRWY HYN YN GORCHYMYN AC YN CYFARWYDDO, er mwyn atal rhwystrau ar y ffyrdd hynny ar y diwrnod hwnnw, y cedwir at y rheoliadau a ganlyn:-

1. Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau hynny a gynhwysir yn erthyglau 3 a 4, y bydd y rhan o'r ffyrdd a elwir Teras Peterwell (o fynedfa Ysgol Bro Pedr), Heol Hafan Deg, A475 Teras y Deml, A475 Stryd Fawr, A482 Sgwâr Harfford, Ffordd y Porthmyn, Stryd Newydd, A482 Heol y Bont, A482 Stryd y Coleg, A482 Ffordd y Gogledd (i fynedfa Clwb Rygbi Llambed) Llanbedr Pont Steffan, yn sir Ceredigion ar gau i'r holl draffig cerbydol gan gynnwys beiciau pedalau rhwng 12:30 a 13:20 ddydd Sadwrn, Awst y 9fed 2025.
2. Nid oes llwybr amgen oherwydd y bydd pob rhan o'r ffordd ar gau am ddim mwy na 15 munud a'i hailagor wrth i'r parêd fynd yn ei blaen. Cedwir mynediad i gerddwyr drwy'r amser.
3. Ni fydd darpariaethau erthygl 1 yn berthnasol ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig neu stiwardiaid dynodedig yn dangos bod y cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.
4. Ni fydd dim yn erthygl 1 y gorchymyn hwn yn berthnasol i ddim cerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, cerbydau a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r digwyddiadau sy'n arwain at y gorchymyn hwn, neu unrhyw beth a wneir gyda chaniatâd neu o dan gyfarwyddyd swyddog heddlu.

Y gosb am dorri'r Rheoliadau dywededig yw dirwy heb fod yn fwy nag Un Fil o Bunnoedd.

Yn dwyn dyddiad y 28 o Gorffennaf 2025

Elin Prysor: Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Penmorfa, Aberaeron